

Adroddiad Arolygu Ysbyty (Dirybudd)

Ward Adferiad a Pillmawr, Ysbyty
Sant Cadog, Bwrdd Iechyd Prifysgol
Aneurin Bevan

Dyddiad yr arolygiad: 19, 20 a 21 Mai 2025

Dyddiad cyhoeddi: 21 Awst 2025



Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copïau o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein [gwefan](#) neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ

Neu

Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: AGIC@llyw.cymru
Gwefan: www.agic.org.uk

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol gofal iechyd yng Nghymru

Ein diben

Gwirio bod gwasanaethau gofal iechyd yn cael eu darparu mewn ffordd sy'n mwyafu iechyd a llesiant pobl.

Ein gwerthoedd

Mae pobl wrth wraidd yr hyn a wnawn. Rydym yn:

- Annibynnol - rydym yn ddiduedd, yn penderfynu pa waith rydym yn ei wneud a lle rydym yn ei wneud
- Gwrthrychol - rydym yn rhesymol ac yn deg ac yn gweithredu ar sail tystiolaeth
- Pendant - rydym yn gwneud dyfarniadau clir ac yn cymryd camau i wella safonau gwael ac amlygu'r arferion da rydym yn dod ar eu traws
- Cynhwysol - rydym yn gwerthfawrogi ac yn annog cydraddoldeb ac amrywiaeth drwy ein gwaith
- Cymesur - rydym yn ystwyth ac yn gwneud ein gwaith lle mae o'r pwys mwyaf

Ein nod

Bod yn llais dibynadwy sy'n ysgogi gwelliant mewn gofal iechyd ac sy'n dylanwadu arno

Ein blaenoriaethau

- Byddwn yn canolbwyntio ar ansawdd y gofal iechyd a ddarperir i bobl a chymunedau wrth iddynt gyrchu gwasanaethau, eu defnyddio a symud rhyngddynt
- Byddwn yn addasu ein dull gweithredu i sicrhau ein bod yn ymatebol i risgiau i ddiogelwch cleifion sy'n dod i'r amlwg
- Byddwn yn cydweithio er mwyn ysgogi'r gwaith o wella systemau a gwasanaethau ym maes gofal iechyd
- Byddwn yn cefnogi ac yn datblygu ein gweithlu i'w galluogi nhw, a'r sefydliad, i gyflawni ein blaenoriaethau.



Cynnwys

1.	Yr hyn a wnaethom	5
2.	Crynodeb o'r arolygiad	6
3.	Yr hyn a nodwyd gennym	10
	• Ansawdd Profiad y Claf	10
	• Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol	15
	• Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth	24
4.	Y camau nesaf	28
	Atodiad A - Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad	29
	Atodiad B- Cynllun gwella ar unwaith.....	30
	Atodiad C - Cynllun gwella.....	30

1. Yr hyn a wnaethom

Ceir manylion llawn am y ffordd rydym yn arolygu'r GIG ac yn rheoleiddio darparwyr gofal iechyd annibynnol yng Nghymru ar ein [gwefan](#).

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad dirybudd yn Ysbyty Sant Cadog, Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan ar 19, 20 a 21 Mai 2025. Adolygwyd wardiau canlynol yr ysbyty yn ystod yr arolygiad hwn:

- Ward Adferiad - 22 o welyau sy'n darparu gwasanaethau Derbyn Iechyd Meddwl Acíwt
- Ward Pillmawr - 13 o welyau sy'n darparu gwasanaethau Adsefydlu Dan Glo i Ddynion.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys tri arolygydd gofal iechyd AGIC a thri adolygydd cymheiriaid clinigol (a oedd yn cynnwys yr adolygydd enwebedig o dan y Ddeddf Iechyd Meddwl). Arweiniwyd yr arolygiad gan un o uwch-arolygwyr AGIC.

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom wahodd y cleifion neu eu gofalwyr i gwblhau holiadur er mwyn dweud wrthym am eu profiad o ddefnyddio'r gwasanaeth. Gwnaethom hefyd wahodd y staff i gwblhau holiadur er mwyn rhoi eu barn ar weithio i'r gwasanaeth i ni. Cwblhawyd cyfanswm o dri holiadur gan gleifion neu eu gofalwyr ac ni chwblhawyd yr un holiadur gan y staff. Fodd bynnag, gwnaethon siarad â'r staff a'r cleifion yn ystod ein harolygiad ac mae rhai o'r sylwadau a gafwyd yn ymddangos yn yr adroddiad.

Lle bo dyfyniadau yn y cyhoeddiad hwn, mae'n bosibl eu bod wedi cael eu cyfieithu o'u hiaith wreiddiol.

Nodwch fod canfyddiadau'r arolygiad yn ymwneud â'r adeg y cynhaliwyd yr arolygiad.

2. Crynodeb o'r arolygiad

Ansawdd Profiad y Claf

Crynodeb cyffredinol:

Yn ystod yr arolygiad, gwelsom y staff yn gweithio'n gyson mewn amgylcheddau ward a oedd yn amlwg yn brysur iawn. Er gwaethaf y pwysau hwn, roedd y staff yn ymatebol a gofalgarn, gan sicrhau bod anghenion y cleifion yn cael eu diwallu'n effeithiol a bod cymorth priodol yn cael ei ddarparu drwy gydol eu harhosiad. Yn gyffredinol, gwelsom fod y cleifion yn cael gofal amserol, a bod asesiadau'n cael eu cynnal yn brydlon ar ôl iddynt gael eu derbyn i'r ysbyty ac roedd tystiolaeth bod proses gynllunio i ryddhau cleifion o'r ysbyty effeithiol ar waith.

Dim ond tri ymateb a gawsom gael gleifion a'u gofalmwyd i'n holiadur. Fodd bynnag, gwnaethom ystyried adborth yr oedd y ward wedi'i gael gan gleifion mewnol, cwynion a data o drafodaethau â chleifion, i'n helpu i ddeall profiad cyffredinol y cleifion yn well. Roedd yr adborth yn gadarnhaol ar y cyfan. Roedd pob un o'r cleifion y gwnaethom siarad â nhw yn teimlo'n ddiogel yn yr ysbyty ac yn gallu siarad ag aelod o staff pan fydd angen.

Roedd yn gadarnhaol gweld yr amrywiaeth o weithgareddau a chyfarfodydd a oedd yn cael eu cynnal ar Ward Pillmawr. Fodd bynnag, yn ystod yr arolygiad, gwnaethom nodi mai ychydig iawn o weithgareddau strwythuredig oedd ar gael ar Ward Adferiad. Mae'n ymddangos bod hyn yn bennaf oherwydd bod swydd y Therapydd Galwedigaethol yn wag ar hyn o bryd. Mae llenwi'r swydd wag hon yn bwysig i sicrhau bod gweithgareddau ystyrlon a therapiwtig ar gael i'r cleifion yn rheolaidd.

Roedd y cleifion ar Ward Pillmawr yn elwa o gael eu hystafelloedd gwely eu hunain, a oedd yn rhoi lefel dda o breifatrwydd iddynt, ac roedd hefyd yn helpu'r staff i gynnal urddas y cleifion. Mae Ward Adferiad yn cynnwys cymysgedd o ystafelloedd cysgu a rennir ac ystafelloedd gwely unigol. Nid yw ystafelloedd gwely a rennir yn adlewyrchu darpariaeth gofal iechyd meddwl modern, a gallant beryglu diogelwch, preifatrwydd ac urddas y cleifion, ac ychwanegu at yr heriau mewn perthynas ag atal a rheoli heintiau.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Sicrhau bod y swydd wag ar gyfer Therapydd Galwedigaethol ar Ward Adferiad yn cael ei llenwi fel mater o flaenoriaeth.
- Ystyrrir y broses o ddarparu ystafelloedd gwely en-suite unigol i gefnogi preifatrwydd, urddas a gofal iechyd meddwl modern.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Gwaith tîm da a staff sy'n llawn cymhelliant
- Staff caredig ac ymatebol.

Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

Crynodeb cyffredinol:

Ar y cyfan, gwelsom fod systemau a threfniadau llywodraethu priodol ar waith a oedd yn helpu i sicrhau bod y cleifion yn cael gofal diogel ac effeithiol. Roedd amrywiaeth o bolisiau iechyd a diogelwch cyfredol ar waith ac roedd amrywiaeth o asesiadau risg wedi cael eu cwblhau, fel asesiadau risg ar gyfer pwyntiau clymu ac asesiadau risg tân. Gwelsom hefyd dystiolaeth bod archwiliadau clinigol yn cael eu cynnal, a oedd yn cael eu monitro gan yr arweinwyr clinigol.

Roedd prosesau priodol ar waith i sicrhau bod y staff yn diogelu oedolion agored i niwed a phlant, gydag achosion yn cael eu hatgyfeirio at asiantaethau allanol yn ôl y gofyn. Roedd gweithdrefnau diogelu'r bwrdd iechyd, wedi'u cefnogi gan Weithdrefnau Diogelu Cymru, ar gael i staff y ward eu gweld.

Yn ystod yr arolygiad, gwelsom sawl achlysur lle bu i'r staff dawelu ymddygiadau sy'n gwaethygu a defnyddio technegau llonyddu mewn ffordd sensitif. Pan fo technegau diogelu yn cael eu rhoi ar waith, roeddent yn cael eu defnyddio mewn ffordd gyfeillgar a pharchus.

Gwelsom sawl rownd meddyginiaeth a gwnaethom nodi bod y staff yn cynnal y rowndiau hyn mewn modd priodol a phroffesiynol gan ryngweithio â'r cleifion mewn ffordd barchus ac ystyriol. Fodd bynnag, roedd yr ystafelloedd clinigol ar y ddwy ward yn gynnes iawn, a allai effeithio ar y broses o storio meddyginiaethau'n ddiogel a chyfforddusrwydd y cleifion.

Roedd cofnodion y cleifion yn drefnus, a gwnaed gwelliannau mewn perthynas â chofnodion y cleifion ers ein harolygiad diwethaf. Roedd data'r cleifion a'u cofnodion yn cael eu storio'n ddiogel.

Roedd y rhan fwyaf o ardaloedd y wardiau yn lân, ond mae angen gwneud gwelliannau sylweddol i ardaloedd cyhoeddus yr ysbyty er mwyn creu amgylchedd mwy croesawgar. Ar noson gyntaf yr arolygiad, gwelsom fod gwastraff clinigol a dillad gwely wedi'u gadael yn y coridorau y tu allan i'r wardiau, a oedd yn peri risg bosibl o haint. Yn ystod yr arolygiad, nodwyd nad oedd gerddi a choridorau'r ysbyty yn cael eu cynnal a'u cadw'n effeithiol a bod sbwriel a malurion amlwg i'w gweld. Roedd arwyddion ger mynedfa'r wardiau yn fudr ac yn rhoi argraff gyntaf wael. At hynny, roedd annibendod mewn rhai ardaloedd gan nad oedd digon o le storio ar y ddwy ward.

Hefyd, nodwyd nifer o bryderon amgylcheddol yn ystafell Adran 136, gan gynnwys arwyddion o leithder a thechnegau gwrthsain annigonol sy'n effeithio ar breifatrwydd ac urddas y cleifion. Roedd yn siomedig iawn bod nifer o faterion amgylcheddol wedi'u nodi ar Ward Adferiad a Ward Pillmawr, fel dodrefn wedi'u difrodi, sinciau wedi tagu a chyfleusterau toiled a chawodydd gwael. O ystyried bod archwiliadau amgylcheddol y bwrdd iechyd a gynhaliwyd yn 2023 a 2024 wedi nodi nifer o'r materion hyn hefyd, mae'n siomedig iawn nad ydynt wedi cael eu datrys.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Adolygu addasrwydd yr ystafell Adran 136 a gwneud gwelliannau iddi
- Mynd i'r afael â nifer o faterion amgylcheddol yn yr ysbyty ac ar y wardiau
- Tymheredd yr ystafelloedd clinigol.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Trefniadau cynllunio gofal o safon dda
- Sgiliau'r staff a'u hymateb gofalgwr wrth ymdrin â sefyllfaoedd heriol.

Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Crynodeb cyffredinol:

Gwelsom dîm o staff cyfeillgar a phroffesiynol a oedd yn ymrwymedig i ddarparu gofal o ansawdd uchel i'r cleifion. Roedd y staff, rheolwyr y wardiau a'r tîm amlddisgyblaethol yn dangos arweinyddiaeth ymroddedig a brwdfrydig.

Roedd strwythur sefydliadol amlwg ar waith, a oedd yn cynnig llinellau rheoli ac atebolrwydd clir. Roedd systemau effeithiol yn darparu mynediad at gymorth gan y tîm rheoli yn ystod y dydd, gyda system ar alwad ar waith yn ystod y nos.

Roedd y staff o'r farn bod y diwylliant ar y ward yn gadarnhaol, ac y byddent yn teimlo'n hyderus yn codi pryder a'u bod yn gwybod sut i wneud hynny, a gwelsom dystiolaeth i gadarnhau hyn.

Cymysg oedd adborth y staff ar welededd yr uwch dîm arwain, gyda rhai ohonynt yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi'n dda a mynegodd eraill bod angen i'r uwch-reolwyr ymgysylltu â nhw yn fwy rheolaidd. Fodd bynnag, dangosodd y bwrdd iechyd y systemau cryf a oedd ar waith i lunio adroddiadau rheoli risgiau a digwyddiadau, gyda thystiolaeth glir o brosesau goruchwyllo a chymau gweithredu dilynol gan yr uwch-reolwyr.

Cafwyd trafferth cael gafael ar ddata ar gydymffurfiaeth â hyfforddiant, a dengys y ffigurau bod bylchau ym meysydd allweddol yr hyfforddiant gorfodol ar Ward

Adferiad, fel yr hyfforddiant ar godi a chario, diogelu a llywodraethu gwybodaeth. At hynny, nid oedd y staff wedi cwblhau'r hyfforddiant gorfodol ar silindrau ocsigen CD. Er nad y silindrau ocsigen a nodir yn hysbysiad Llywodraeth Cymru oedd yn cael eu defnyddio ar adeg yr arolygiad, mae'n hanfodol bod y staff yn cwblhau'r hyfforddiant er mwyn sicrhau eu bod gwybod sut i drin cyfarpar o'r fath yn ddiogel os caiff ei gyflwyno yn y dyfodol.

Roedd llai o weithgareddau'n cael eu cynnal ar Ward Adferiad o gymharu â Ward Pillmawr, ac roedd angen gwneud mwy o welliannau i'r safon amgylcheddol yno ac i gyfradd gydymffurfiaeth staff y ward â hyfforddiant. Er ei bod yn bwysig cydnabod yr heriau gwahanol sydd ynghlwm â'r grwpiau cleifion ar y ddwy ward, dylai'r bwrdd iechyd fyfyrion ar y gwahaniaethau hyn ac ystyried cyfleoedd i gefnogi safonau ac adnoddau mwy cyson yn y ddwy ward.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Gwella gwelededd yr uwch dîm arwain
- Gwella mynediad at ddata hyfforddiant a gwella ffigurau hyfforddiant gorfodol
- Dylai staff o bob rhan o'r bwrdd iechyd gwblhau hyfforddiant ar silindrau ocsigen.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Trosolwg o risgiau a digwyddiadau a'r broses o'u rheoli
- Cydymffurfiaeth dda â sesiynau goruchwyllo ac arfarniadau rheolaidd y staff
- Grŵp cadarn, gofalgarn a chefnogol o staff.

3. Yr hyn a nodwyd gennym

Ansawdd Profiad y Claf

Yn canolbwyntio ar yr unigolyn

Hybu iechyd

Roedd Ward Pillmawr yn cynnig amrywiaeth o weithgareddau i'r cleifion. Roedd digon o gyfarpar yn yr ardal gymunedol, gan gynnwys ystafell deledu, bwrdd pŵl, llyfrau a gemau bwrdd. Gwelwyd poster a oedd yn cynnwys gwybodaeth am weithgareddau oddi ar y safle. Roedd ystod o wybodaeth hybu iechyd hefyd ar gael er gwybodaeth a llesiant y cleifion.

Roedd gwaith wedi cael ei gwblhau'n ddiweddar ar yr ardd allanol, a oedd bellach yn cynnwys arwyneb pob tywydd. Roedd hyn yn creu ardal allanol ddymunol y gall y cleifion ei defnyddio a'i mwynhau drwy gydol y flwyddyn. Ar y llaw arall, roedd yr ardd yn Ward Adferiad yn ymddangos yn anniben.

Dylai'r bwrdd iechyd sicrhau bod ardal allanol debyg a gaiff ei chynnal a'i chadw'n effeithiol ar gael i'r cleifion ar Ward Adferiad i gefnogi eu llesiant a'u hadferiad.

Ychydig iawn o weithgareddau strwythuredig oedd ar gael ar Ward Adferiad, ac roedd yn ymddangos bod hyn o ganlyniad i swydd wag y Therapydd Galwedigaethol, a lefel uchel anghenion y cleifion. Er gwaethaf hyn, roedd teledu, bwrdd pŵl a gemau bwrdd ar gael i'r cleifion. Fodd bynnag, roedd yn amlwg nad oedd deunyddiau hybu iechyd ar gael ar y ward.

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod y swydd wag ar gyfer Therapydd Galwedigaethol yn cael ei llenwi i wneud yn siŵr bod gweithgareddau therapiwtig a hamdden ar gael i'r cleifion ar Ward Adferiad yn rheolaidd.

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod deunyddiau hybu iechyd perthnasol ar gael i'r cleifion.

Mae gwasanaethau hefyd yn cael eu darparu gan weithwyr proffesiynol eraill, fel ffisiotherapi a dieteteg, yn unol ag anghenion cleifion unigol. Mae gwasanaeth meddyg teulu, gwasanaethau deintyddol a gweithwyr iechyd corfforol proffesiynol eraill ar gael i'r cleifion hefyd, fel y bo angen. Cadarnhaodd y cofnodion cleifion a welsom fod asesiadau iechyd corfforol priodol a gwaith monitro parhaus yn cael eu cynnal.

Gofal urddasol a pharchus

Gwelsom fod y staff yn ymgysylltu â'r cleifion yn briodol gan eu trin ag urddas a pharch, sy'n cynnwys staff y ward, uwch-reolwyr a staff gweinyddol.

Roedd y staff y gwnaethom siarad â nhw yn frwdfrydig am eu rolau a'r modd roeddent yn cefnogi'r cleifion ac yn gofalu amdanynt. Gwelsom fod y rhan fwyaf o'r staff yn cymryd amser i siarad â'r cleifion ac i fynd i'r afael ag unrhyw anghenion neu bryderon a oedd ganddynt. Drwy gydol yr arolygiad, gwelsom y staff yn gweithio'n aml mewn wardiau a oedd yn amlwg yn brysur iawn. Er gwaethaf y pwysau, roedd y staff yn ymatebol ac yn canolbwyntio ar eu gwaith, gan sicrhau eu bod yn diwallu anghenion y cleifion yn effeithiol. Roedd hyn yn dangos agweddau ymatebol a gofalgarg gan y staff tuag at y cleifion. Nododd y cleifion hefyd:

“Mae'r staff yn ardderchog”

Roedd mynedfeydd y wardiau yn cael eu cloi a defnyddiwyd system intercom i rwystro unrhyw fynediad heb awdurdod. Roedd Ward Adferiad yn cynnwys cymysgedd o ystafelloedd gwely unigol ac ystafelloedd cysgu a rennir, ond nid oedd cyfleusterau en-suite yn yr ystafelloedd. Nid yw'r drefn hon yn cyd-fynd â'r safonau modern ar gyfer gofal iechyd meddwl, gan y gall ystafelloedd gwely a rennir beryglu diogelwch, preifatrwydd ac urddas y cleifion, ac achosi heriau mewn perthynas ag atal a rheoli heintiau.

Er ein bod yn cydnabod y gost sy'n gysylltiedig ag adnewyddu amgylchedd ward a'r ffaith y gall hyn effeithio ar y gwelyau sydd ar gael yn ystod y broses adnewyddu, byddai'n fuddiol i'r cleifion pe byddai'r ystafelloedd gwely a rennir yn cael eu haddasu i ddarparu ystafelloedd unigol â chyfleusterau en-suite er mwyn gwella eu preifatrwydd.

Dylai'r bwrdd iechyd ystyried sut y gall wella profiad y cleifion a chynnal eu preifatrwydd a'u hurddas, i'r rhai y mae'n rhaid iddynt rannu ystafell wely.

Ar Ward Pillmawr, mae paneli arsylwi wedi'u gosod ar ystafell pob claf y gellir eu hagog neu eu cau o'r tu allan, er mwyn galluogi'r staff i fonitro person pan fydd angen. Gall y cleifion gloi drysau eu hystafelloedd gwely. Fodd bynnag, gallai'r staff eu hagog o hyd pan fo angen. Gwelsom y staff yn parchu preifatrwydd y cleifion drwy gnocio ar ddrysau'r ystafelloedd gwely a'r ystafelloedd ymolchi cyn mynd i mewn.

Roedd y cleifion yn gallu personoli eu hystafelloedd a storio eu heiddo personol. Roedd asesiadau risg yn cael eu cynnal ar gyfer pob eitem personol er mwyn helpu

i gynnal diogelwch pob claf. Roedd hyn yn cynnwys defnyddio ffonau symudol a dyfeisiau electronig personol eraill. Roedd ffôn hefyd ar gael i'r cleifion gysylltu â ffrindiau a theulu os oedd angen.

Roedd y staff yn gwisgo larymau personol tra roeddent yn gweithio ar y ward, ac roeddent ar gael i'r staff ac ymwelwyr eu defnyddio, pe bai angen. I gefnogi'r cleifion ymhellach, roedd pwyntiau galw am nyrs ar gael o gwmpas yr ysbyty ac yn ystafelloedd gwely ac ystafelloedd ymolchi'r cleifion, fel y gallent alw am help yn hawdd pe bai angen.

Roedd Ward Adferiad yn cynnig gofal i ddynion a menywod a all fod yn heriol o ran agweddau ar ofal ag urddas. Fodd bynnag, roedd y staff yn wybodus ac roedd camau diogelu a phrosesau effeithiol ar waith i reoli'r heriau hyn er mwyn sicrhau gofal ag urddas.

Gofal wedi'i deilwra at yr unigolyn

Roedd ffocws clir ar adsefydlu ar y ward. Roedd gofal wedi'i deilwra at gleifion unigol wedi'i ategu gan yr arferion lleiaf cyfyngol, mewn perthynas â chynllunio gofal ac arferion yr ysbyty.

Roedd gan y cleifion eu cynllunydd gweithgareddau wythnosol eu hunain, a oedd yn cynnwys sesiynau personol a sesiynau grŵp yn yr ysbyty ac yn y gymuned (os oeddent wedi cael yr awdurdod priodol i wneud hynny. Gwelsom hefyd fod y cleifion a'u perthnasau/gofalwyr yn cael eu cynnwys yn llawn mewn adolygiadau amlddisgyblaethol misol.

Roedd cyfleusterau ar gael i'r cleifion weld eu teuluoedd yn breifat. Roedd ystafelloedd hefyd ar gael i'r cleifion dreulio amser ar wahân i'r cleifion eraill yn unol â'u hanghenion a'u dymuniadau. Roedd trefniadau ar waith i'r cleifion wneud galwadau ffôn yn breifat.

Gwnaethom edrych ar sampl o gofnodion cleifion a oedd yn cael eu cadw o dan y Ddeddf Iechyd Meddwl (y Ddeddf) a nodwyd gennym fod y ddogfennaeth sy'n ofynnol gan y ddeddfwriaeth ar gael. Roedd hyn yn dangos bod hawliau'r cleifion wedi cael eu hybu a'u diogelu fel sy'n ofynnol gan y Ddeddf. Caiff ansawdd y dogfennau hyn eu trafod yn nes ymlaen yn yr adroddiad.

Amserol

Gofal amserol

Mae gan yr ysbyty brosesau ar waith i reoli llif cleifion/ gwelyau, sy'n cynnwys dulliau o rannu gwybodaeth â chleifion, er mwyn trafod ac ystyried lefelau

defnydd gwelyau, a helpu i gynllunio ar gyfer unrhyw broblemau sy'n codi wrth dderbyn neu ryddhau cleifion.

At ei gilydd, gwelsom fod y cleifion yn cael gofal amserol yn ystod eu hamser ar y ward. Mae eu hanghenion yn cael eu hasesu'n brydlon wrth eu derbyn, a gwelsom aelodau o'r staff yn rhoi gofal ac yn helpu'r cleifion yn ôl yr angen. Roedd gan y cleifion sy'n cael gofal ar y wardiau amrywiaeth o aciwtedd a dibyniaeth, ac oherwydd anghenion gofal cymhleth rhai o'r cleifion, roedd yn galonogol gweld bod rhai o'r staff yn rhoi cymorth a goruchwyliaeth un i un i'r cleifion pan fo'n briodol.

Yn ystod yr ymweliad arolygu gyda'r nos, derbyniwyd claf newydd ar y ward mewn a oedd wedi cynhyrfu'n fawr. Er gwaethaf yr amgylchiadau heriol, roedd y staff yn dawel, gwnaethant ymateb yn gyflym a gwneud yn siŵr bod y claf newydd a chleifion eraill ar y ward yn ddiogel. Roedd hyn yn dangos proffesiynoldeb, gwaith tîm cryf a thosturi tuag at eraill wrth weithio dan bwysau.

Teg

Cyfathrebu ac iaith

Dywedodd pob un o'r cleifion y gwnaethom siarad â nhw eu bod yn teimlo'n ddiogel ac yn gallu siarad ag aelod o staff pan fydd angen. Gwnaethant hefyd ddweud eu bod yn hapus yn yr ysbyty, a bod y staff yn garedig ac yn barod i'w helpu. Roedd parch amlwg a chydberthnasau cryf rhwng y staff, y cleifion a'u perthnasau/gofalwyr.

Drwy gydol yr arolygiad, gwelsom y staff yn ymgysylltu ac yn cyfathrebu mewn ffordd gadarnhaol a sensitif â'r cleifion, gan gymryd amser i'w helpu i ddeall eu gofal, a defnyddio iaith neu ddulliau cyfathrebu priodol.

Dywedwyd wrthym fod staff dwyieithog (Cymraeg a Saesneg) ar gael ar Ward Adferiad, a oedd yn galluogi'r staff i ddarparu'r cynnig rhagweithiol o siarad â chleifion yn Gymraeg. Fodd bynnag, ar adeg yr arolygiad, nid oedd unrhyw gleifion ar y wardiau yn siarad Cymraeg. Dywedwyd wrthym fod gwasanaethau cyfieithu ar gael hefyd pe byddai angen i gleifion gyfathrebu mewn ieithoedd eraill heblaw Cymraeg neu Saesneg.

Lle bo hynny'n gymwys, gall y cleifion gael cymorth gan gyrff allanol, fel cyfreithwyr neu wasanaethau eirioli i gleifion yn ystod cyfarfodydd cleifion penodol. Gyda chytundeb y cleifion, lle bynnag y bo'n bosibl, roedd eu teuluoedd neu eu gofalwyr yn cael eu cynnwys yn y cyfarfodydd hyn.

Roedd gwybodaeth ddwyieithog am AGIC a phroses Gweithio i Wella GIG Cymru i'w gweld hefyd.

Hawliau a chydraddoldeb

Gwelsom fod trefniadau da ar waith i hyrwyddo a diogelu hawliau'r cleifion. Roedd y ddogfennaeth gyfreithiol yn ymwneud â chadw cleifion o dan y Ddeddf Iechyd Meddwl yn cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth.

Roedd gwasanaethau eirioli ar gael i bob claf, a dywedwyd wrthym fod eiriolwyr yn ymweld â'r ysbyty yn ôl yr angen. Dywedodd y staff wrthym fod cleifion yn cael eu gwahodd i fod yn rhan o gyfarfod y tîm amlddisgyblaethol ar eu cyfer a bod aelodau o'r teulu neu eiriolwyr yn cael eu hannog i gymryd rhan lle y bo'n bosibl.

Yn ystod ein trafodaethau â'r staff, gwnaethant ddangos eu bod yn rhoi sylw priodol i gynnal hawliau'r cleifion a dewisiadau cleifion unigol. Roedd y cynlluniau gofal a thriniaeth a welsom yn dangos bod anghenion cymdeithasol, diwylliannol ac ysbrydol y cleifion wedi cael eu hystyried. Gwelsom fod gan yr ysbyty bolisi Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant priodol a oedd ar gael i helpu i sicrhau bod cydraddoldeb ac amrywiaeth y cleifion yn cael eu parchu.

Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

Diogel

Rheoli risg

Gwelsom fod systemau a threfniadau llywodraethu ar waith i gefnogi gofal diogel a chlinigol effeithiol. Roedd system electronig sefydledig yn cael ei defnyddio i gofnodi, adolygu a monitro digwyddiadau diogelwch cleifion. Cadarnhaodd y staff fod sesiynau dadfriffio yn cael eu cynnal ar ôl digwyddiadau. Cadarnhaodd y cyfarfodydd a'r dystiolaeth a gafwyd yn ystod yr arolygiad y caiff digwyddiadau ac ymyriadau corfforol eu monitro a'u goruchwyllo'n effeithiol.

Roedd pwyntiau galw am nyrs ar gael ym mhob rhan o'r ysbyty, gan gynnwys yn ystafelloedd gwely ac ystafelloedd ymolchi'r cleifion, fel y gallant alw am help pe bai angen.

Roedd amrywiaeth o bolisiau iechyd a diogelwch ac asesiadau risg cyfredol ar waith, gan gynnwys asesiadau risg ar gyfer pwyntiau clymu ac asesiadau risg tân.

Roedd gwiriadau amgylcheddol yn cael eu cynnal yn rheolaidd, a gwelsom dystiolaeth o arolygiadau wythnosol rheolwr y ward. Fodd bynnag, mae angen gwneud gwelliannau pellach i wella diogelwch. Roedd ôl traul ar y wardiau ac roedd angen eu hailaddurno. Roedd yn ymddangos bod y wardiau yn anniben ac yn flêr gan mai ychydig iawn o ardaloedd storio oedd ar gael. Nodwyd nifer o faterion amgylcheddol a materion cynnal a chadw:

Ward Adferiad:

- Dodrefn wedi'u difrodi yn yr ardal fwyta
- Diffyg golau naturiol a system rheoli tymheredd wael yn yr Ardal Gofal Ychwanegol
- Cypyrddau wedi'u difrodi yn y gegin
- Dŵr yn casglu ar y llawr yn yr ystafell gawod (perygl o lithro)
- Sinc wedi tagu yn un o'r ystafelloedd gwely
- Toiledau dynion: twll yn y wal, bordiau wal wedi dod yn rhydd, llwydni amlwg
- Toiledau menywod: staeniau brown yn y bowlenni
- Gorchudd golau wedi'i ddifrodi yn yr ystafell fwyta
- Mae angen gosod cabinet oeri dŵr newydd.

Ward Pillmawr:

- Sinc wedi tagu yn Ystafell 13

- Llwydni yn ardal y gawod
- Toiled nad yw'n gweithio
- Mae angen glanhau'r gwyntyll.

Nodwyd nifer o'r materion hyn yn flaenorol yn yr archwiliadau amgylcheddol a gynhaliwyd yn 2023 a 2024 ond nid oeddent wedi'u datrys o hyd.

Dylai'r bwrdd iechyd adolygu'r cofnodlyfr cynnal a chadw, sy'n helaeth, ac atgyfnerthu ei ddull o fynd i'r afael â phryderon amgylcheddol. Mae angen rhoi proses glir ac amserol ar waith i sicrhau bod materion yn cael eu datrys a bod yr amgylchedd yn parhau'n ddiogel ac mewn cyflwr da ar gyfer y cleifion a'r staff.

Rhaid i'r Bwrdd Iechyd fynd i'r afael â'r materion amgylcheddol a'u datrys mewn modd prydlon ac amserol.

At hynny, ychydig iawn o ardaloedd storio oedd ar gael ar y wardiau a oedd yn golygu bod rhai ardaloedd yn ymddangos yn anniben ac yn flêr. Er enghraifft, roedd yr ystafell Therapi Galwedigaethol ar Ward Adferiad yn cael ei defnyddio i storio cyfarpar a chyflenwadau, a oedd yn golygu nad oedd yn bosibl ei defnyddio at ddibenion therapiwtig. Hefyd, roedd yr ystafell ymweld ar Ward Pillmawr yn cael ei defnyddio i storio eitemau amrywiol.

Dylai'r bwrdd iechyd gynnal adolygiad o'r anghenion storio presennol a nodi datrysiadau storio amgen a dynodedig er mwyn sicrhau y gellid defnyddio'r ardaloedd therapiwtig a chymunedol.

Atal a rheoli heintiau a dihalogi

Ar y cyfan, roedd yn ymddangos fod y prosesau atal a rheoli heintiau yn briodol. Roedd Cyfarpar Diogelu Personol ar gael i'r staff yn rheolaidd ac roeddent yn ei ddefnyddio'n gywir. Hefyd, roedd cyfleusterau golchi, sychu a diheintio dwylo digonol ar gael. Roedd y cyfarpar glanhau yn cael ei storio'n ddiogel ac roedd y trefniadau gwaredu gwastraff ar gyfer gwastraff domestig a chlinigol yn addas.

Dangosodd aelodau o'r staff wybodaeth dda am arferion atal a rheoli heintiau, ac roedd archwiliadau rheolaidd yn cael eu cynnal. Fodd bynnag, dylai'r wardiau sicrhau bod pob aelod o'r staff yn gyfarwydd â'r modelau a'r polisiâu atal a rheoli heintiau cenedlaethol. 79.07% oedd cyfradd cydymffurfio'r staff â hyfforddiant gorfodol ar atal a rheoli heintiau ar Ward Adferiad a 93.10% ar Ward Pillmawr.

Er bod y rhan fwyaf o ardaloedd y wardiau yn lân, mae angen gwneud gwelliannau i ardaloedd cyhoeddus yr ysbyty er mwyn gwella'r broses rheoli heintiau a phrofiad cyffredinol y cleifion ac ymwelwyr. Yn ystod yr arolygiad, gwelsom y canlynol:

- Gerddi a choridoriau nad oeddent yn cael eu cynnal a'u cadw'n effeithiol yn yr ysbyty, gyda sbwriel, bonion sigarêts, malurion a gweoedd pryfed cop amlwg.
- Arwyddion budr ger mynedfa'r ysbyty, a all roi argraff gyntaf negyddol i bobl.

Yn ystod noson ein harolygiad, gwelsom fagiau o wastraff clinigol a dillad gwely budr yn y coridorau y tu allan i'r wardiau. Roedd hyn yn peri risg bosibl o haint i'r cleifion, y staff, a'r ymwelwyr a oedd yn defnyddio'r ardaloedd hyn. Gwnaethom godi ein pryderon ag uwch-reolwr yr ysbyty ar unwaith ar adeg yr arolygiad. Mewn ymateb i hyn, symudodd y staff y gwastraff a'r dillad gwely, a chawsom sicrwydd y byddai gweithdrefnau priodol ar gyfer storio a gwaredu deunyddiau o'r fath yn cael eu dilyn yn y dyfodol. Mae cynnal ardaloedd cyhoeddus glân, trefnus a chroesawgar yn hollbwysig nid yn unig ar gyfer rheoli heintiau ond i hyrwyddo amgylchedd proffesiynol a therapiwtig hefyd.

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau ei fod yn rhoi amserlen lanhau a chynnal a chadw reolaidd ar waith ar gyfer yr ardaloedd cyhoeddus, gan gynnwys ar gyfer yr arwyddion a'r gerddi allanol.

Diogelu plant ac oedolion

Roedd prosesau priodol ar waith i sicrhau bod y staff yn diogelu oedolion agored i niwed a phlant, gydag achosion yn cael eu hatgyfeirio at asiantaethau allanol yn ôl y gofyn.

Roedd prosesau diogelu'r bwrdd iechyd, wedi'u cefnogi gan Weithdrefnau Diogelu Cymru, ar gael i staff y ward eu gweld drwy'r fewnwyd. Cadarnhaodd uwch-aelodau o staff y ward eu bod yn hyderus bod staff yn ymwybodol o'r weithdrefn gywir i'w dilyn pe bai ganddynt bryder yn ymwneud â diogelu. Yn ystod ein trafodaethau â'r staff, roeddent yn gallu dangos gwybodaeth am y broses ar gyfer atgyfeirio achos diogelu.

Rheoli dyfeisiau a chyfarpar meddygol

Roedd archwiliadau clinigol rheolaidd yn cael eu cynnal yn yr ysbyty a gwelsom dystiolaeth bod cyfarpar adfywio yn cael ei archwilio'n rheolaidd. Roedd y staff wedi dogfennu pryd roedd hyn wedi'i wneud er mwyn sicrhau bod y cyfarpar yn barod i'w ddefnyddio ac nad oedd unrhyw ddyddiadau wedi mynd heibio.

Yn ystod trafodaethau â'r staff, roedd yn glir eu bod yn ymwybodol o leoliadau torwyr clymau i'w defnyddio mewn argyfwng.

Yn ystod yr arolygiad, nodwyd nad oedd y staff wedi cwblhau'r hyfforddiant gorfodol ar silindrau ocsigen CD. Mae'n ofynnol i staff gwblhau'r hyfforddiant hwn

yn unol â hysbysiad Llywodraeth Cymru ac mae'n hollbwysig ar gyfer trin a defnyddio silindrau ocsigen yn ddiogel mewn lleoliadau clinigol. Er nad yw'r math penodol hwn o silindr ar gael i'r staff ar y ddwy ward ar hyn o bryd, mae'n bwysig bod pob aelod o staff y bwrdd iechyd yn cwblhau'r hyfforddiant, gan ei bod yn bosibl y bydd y silindrau hyn yn cael eu defnyddio mewn ardaloedd eraill neu yn ystod sefyllfaoedd brys.

Dylai'r bwrdd iechyd sicrhau bod pob aelod perthnasol o'r staff yn gallu cwblhau'r hyfforddiant ar silindrau ocsigen CD, hyd yn oed os nad yw'r cyfarpar ar gael ar hyn o bryd. Bydd hyn yn helpu i gynnal safon gyson o ddiogelwch a pharodrwydd ym mhob rhan o'r gwasanaethau.

Rheoli meddyginiaethau

Gwelsom fod trefniadau addas ar waith ar gyfer rheoli meddyginiaethau a'u storio'n ddiogel. Gwelsom hefyd dystiolaeth bod tymheredd yr oergell feddyginiaeth yn cael ei wirio'n rheolaidd er mwyn cynnal trefniadau storio ar dymheredd diogel.

Mae staff cofrestredig yn gwirio'r stoc feddyginiaeth bob dydd, ac mae'r arweinwyr clinigol yn cynnal archwiliadau bob wythnos. Gwelsom sawl rownd meddyginiaeth, a gwelsom fod y staff yn cynnal y rowndiau hyn mewn modd priodol a phroffesiynol, gan ryngweithio â'r cleifion mewn ffordd barchus ac ystyriol.

Yn ystod yr arolygiad, nodwyd bod yr ystafelloedd clinigol ar y ddwy ward yn gynnes iawn. Mae cynnal tymereddau priodol mewn ardaloedd clinigol yn hanfodol i sicrhau bod y staff a'r cleifion yn gyfforddus, yn ogystal â chefnogi'r broses o storio meddyginiaethau a chyfarpar meddygol yn ddiogel. Er bod dystiolaeth i ddangos bod y bwrdd iechyd wedi monitro'r cynnydd yn y tymheredd, roedd y ddwy ystafell yn anghyfforddus o boeth o hyd. Dywedodd y staff fod hyn yn fater parhaus, yn enwedig yn ystod tywydd poeth.

Rhaid i'r bwrdd iechyd ymchwilio'n drwyadl i'r tymereddau uchel cyson yn yr ardaloedd clinigol a rhoi mesurau effeithiol ar waith i fynd i'r afael â'r broblem.

Yn ystod ein hymweliad â'r wardiau, nodwyd gennym wrth edrych ar Gofnodion Rhoi Meddyginiaeth claf nad oedd y ffurflenni CO₂ a CO₃ wedi'u hatodi. Mae'n ofynnol cwblhau'r ffurflenni hyn yn gyfreithiol o dan y Ddeddf Iechyd Meddwl ar gyfer triniaethau penodol. Mae sicrhau bod y dogfennau hyn ar waith yn hollbwysig i gadarnhau bod triniaeth wedi cael ei rhoi yn gyfreithlon, a bod hawliau'r cleifion wedi cael eu cynnal.

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod yr holl ddogfennaeth sy'n ofynnol yn gyfreithiol, gan gynnwys y ffurflenni CO2 a CO3, yn cael eu cwblhau'n gyson a'u hatodi i'r siartiau Cofnodion Rhoi Meddyginiaeth.

Effeithiol

Gofal effeithiol

Ar y cyfan, gwelsom fod trefniadau llywodraethu priodol ar waith a oedd yn helpu i sicrhau bod y staff yn rhoi gofal diogel a chlinigol effeithiol i'r cleifion.

Cadarnhaodd y staff fod ôl-drafodaethau yn cael eu cynnal ar ôl digwyddiadau. Cadarnhaodd y cyfarfodydd y gwnaethom eu mynychu a'r dystiolaeth a gafwyd yn ystod yr arolygiad y caiff digwyddiadau a'r defnydd o ymyriadau corfforol (fel dulliau atal) eu gwirio, eu dadansoddi a'u goruchwyllo.

Gwelodd y tîm arolygu achosion cadarnhaol o ailgyfeirio a thawelu ymddygiadau anodd ar Ward Adferiad yn ystod yr arolygiad. Roedd yr achosion hyn yn cael eu trin yn barchus ac mewn ffordd gefnogol iawn.

Roedd lefelau cydymffurfiaeth y staff â hyfforddiant ar Ymyriadau Corfforol yn 96% ar Ward Adferiad ac yn 94% ar Ward Pillmawr ar hyn o bryd. Mae nifer digonol o staff sydd wedi cael hyfforddiant yn gweithio ar bob shift i reoli sefyllfaoedd lle mae angen defnyddio ymyriadau corfforol. Fodd bynnag, nodwyd nad yw'r staff banc sy'n gweithio ar y wardiau yn cael unrhyw hyfforddiant ar ymyriadau corfforol ar hyn o bryd. Er hyn, dywedodd yr uwch-reolwyr bod digon o staff sydd wedi cael hyfforddiant bob amser ar shift pan fo staff banc yn gweithio.

Rhaid i'r bwrdd iechyd gysylltu ag adran staff dros dro y bwrdd iechyd i gael sicrwydd bod unrhyw staff banc sy'n gweithio mewn meysydd lle gall fod angen iddynt ddarparu ymyriadau corfforol (dulliau atal) wedi cael yr hyfforddiant gofynnol, er mwyn cynnal diogelwch y staff a'r cleifion.

Roedd system electronig sefydledig ar waith ar gyfer cofnodi, adolygu a monitro digwyddiadau. Roedd digwyddiadau yn cael eu cofnodi ar system rhoi gwybod am ddigwyddiadau'r bwrdd iechyd (DATIX).

Roedd hierarchaeth ar gyfer cymeradwyo digwyddiadau a oedd yn sicrhau bod adroddiadau ar ddigwyddiadau yn cael eu hadolygu mewn modd amserol. Roedd adroddiadau ar ddigwyddiadau yn cael eu llunio a'u hadolygu'n rheolaidd fel y gellid adolygu a dadansoddi faint o ddigwyddiadau oedd yn codi. Roedd trefniadau ar waith i rannu gwybodaeth a gwersi a ddysgwyd o gwynion a digwyddiadau â'r staff yn yr ysbyty a'r sefydliad yn fwy cyffredinol.

Maeth a hydradu

Rhoddir cyfle i'r cleifion ddewis eu prydau bwyd bob bore. Roedd yr hysbysfwrdd 'dywedoch chi, gwnaethom ni' yn dangos bod bwyd ar Ward Adferiad yn bwnc sy'n codi'n aml yn yr adborth gan gleifion. Mynegodd y rhan fwyaf o'r cleifion y gwnaethom gyfweld â nhw anfodlonrwydd o ran yr amrywiaeth cyfyngedig a'r diffyg opsiynau ar y fwydlen. Er bod y fwydlen yn diwallu amrywiaeth o anghenion deietegol, gan gynnwys bwyd llysieuol, halal a di-glwten, dywedodd y cleifion nad oedd llawer o ddewisiadau iach a oedd yn apelio ar gael. Gwnaethom nodi yn ystod yr arolygiad, bod opsiynau iach ar gael yn ystod amser cinio, ond na wnaeth yr un o'r cleifion eu dewis.

Roedd y cleifion ar Ward Pillmawr yn gallu defnyddio'r gegin yn yr ystafell therapi galwedigaethol, ond nid oedd gan Ward Adferiad wasanaeth Therapi Galwedigaethol ar hyn o bryd, a oedd yn cyfyngu ar y cyfleoedd i'r cleifion gymryd rhan yn y broses o baratoi prydau bwyd a datblygu sgiliau byw yn annibynnol.

Gall y cleifion storio byrbrydau a diodydd a gallant ofyn am ddiodydd poeth gan y staff. Fodd bynnag, nodwyd bod yr amgylchedd ar Ward Adferiad yn anghyfforddus o boeth, yn enwedig yn y gegin, gan fod heulfan blastig yno. At hynny, gwelwyd bod y cabinet oeri dŵr wedi cracio a thorri.

Dylai'r bwrdd iechyd ystyried y canlynol:

- Adolygu'r fwydlen a chynnig mwy o opsiynau
- Archwilio opsiynau i sicrhau y gall y cleifion gymryd rhan mewn sesiynau coginio a gaiff eu harwain gan y gwasanaeth Therapi Galwedigaethol
- Asesu'r broses rheoli tymheredd yn y gegin
- Sicrhau bod y cabinet oeri dŵr yn cael ei atgyweirio neu fod cabinet newydd yn cael ei osod yn ei le.

Cofnodion cleifion

Roedd cofnodion y cleifion yn cael eu cadw ar ffurf electronig. Roedd cyfrinair ar y system electronig er mwyn atal achosion o fynediad heb awdurdod ac achosion o dor-cyfrinachedd. Gwnaethom ddefnyddio'r system drwy gydol yr arolygiad. Roedd yn anodd i ni ei deall, ac o ganlyniad, codwyd pryderon ynghylch gallu staff dros dro neu staff asiantaeth i gael gafael ar wybodaeth berthnasol a phriodol. Nodwyd pryderon tebyg yn ystod arolygiad blaenorol mewn rhan arall o'r bwrdd iechyd, sy'n awgrymu ei fod yn fater systemig ehangach. Dywedodd y staff hefyd ei bod yn cymryd llawer o amser i ddefnyddio'r system, ac y gallai fod yn her cael gafael ar y wybodaeth, ac nad oedd aelodau o staff dros do yn cael y cyfrineiriau bob amser. Mae hyn o bosibl yn arwain at beidio â chofnodi gwybodaeth yn nodiadau'r cleifion mewn modd amserol.

Dylai'r bwrdd iechyd ystyried adolygu'r systemau cofnodi electronig ar draws y safleoedd yn ehangach i sicrhau cysondeb, defnyddioldeb, ac effeithiolrwydd ac adolygu'r ffordd y mae'r system yn effeithio ar allu'r staff i gofnodi a chasglu data yn gywir, gan roi sylw penodol i hygyrchedd a defnyddioldeb y system ar gyfer staff dros dro a staff asiantaeth.

Gwelsom fod systemau cadarn ar waith i sicrhau bod gwybodaeth bersonol am y cleifion a'r staff yn cael ei chadw'n ddiogel. Roedd fframwaith llywodraethu gwybodaeth ffurfiol ar waith ac roedd y staff yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau o ran cadw cofnodion cywir a sicrhau cyfrinachedd.

Ceir rhagor o wybodaeth am ein canfyddiadau mewn perthynas â chofnodion cleifion a chynlluniau gofal yn adran Monitro Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010: Cynllunio a darparu gofal yr adroddiad hwn.

Monitro'r Ddeddf Iechyd Meddwl

Gwnaethom edrych ar ddogfennau cadw statudol pum claf a gwelsom fod yr holl achosion o gadw cleifion yn cydymffurfio'n gyfreithlon â gofynion y Ddeddf Iechyd Meddwl. Roedd y ddogfennaeth yn drefnus, yn hawdd ei defnyddio ac yn cynnwys gwybodaeth fanwl a pherthnasol.

Roedd system effeithlon ac effeithiol ar waith gan Weinyddydd y Ddeddf Iechyd Meddwl i gefnogi'r gwaith o weithredu, monitro ac adolygu gofynion cyfreithiol y Ddeddf. Fodd bynnag, nodwyd nad oedd rhai aelodau o'r staff wedi cwblhau'r hyfforddiant ar y Ddeddf Iechyd Meddwl.

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod y staff yn cwblhau'r hyfforddiant ar y Ddeddf Iechyd Meddwl.

Monitro Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010: cynllunio a darparu gofal

Gwnaethom adolygu Cynlluniau Gofal a Thriniaeth pum claf. Roedd y cofnodion yn dangos bod asesiad iechyd corfforol cyffredinol a dogfennaeth fonitro safonedig fel NEWS¹ a MUST² yn cael eu cwblhau'n llawn a'u cadw'n gyfredol. Yn ogystal, roedd asesiadau safonedig yn seiliedig ar anghenion cleifion unigol.

¹Canllaw a ddefnyddir gan y gwasanaethau meddygol yw'r Sgôr Rhybudd Cynnar Cenedlaethol er mwyn cadarnhau hyd a lled salwch claf yn gyflym. Mae'n seiliedig ar arwyddion hanfodol o fywyd fel, cyfradd anadlu, dirlawnder ocsigen, tymheredd, pwysedd gwaed, cyfradd curiad y pwls/y galon, ymateb AVPU (yn effro, llafar, poen, anymatebol).

²Adnodd sgrinio pum cam yw MUST (Adnodd Sgrinio Diffyg Maeth Cyffredinol) er mwyn adnabod oedolion a allai fod yn dioddef diffyg maeth, sy'n wynebu risg o ddiffyg maeth (tanfaethiad) neu sy'n ordev. Mae hefyd yn cynnwys canllawiau rheoli y gellir eu defnyddio i ddatblygu cynllun gofal.

Roedd y broses o reoli ymddygiadau'r cleifion yn cael ei hadlewyrchu yn eu cynlluniau gofal a'r proffil rheoli risg, ac roedd hyfforddiant ar gael i'r staff i ddefnyddio sgiliau i reoli sefyllfaoedd anodd a'u tawelu. Fodd bynnag, nodwyd gennym nad oedd un o'r cynlluniau gofal a thriniaeth wedi cael ei ddiweddararu ar Ward Pillmawr.

Dylai'r bwrdd iechyd sicrhau bod yr holl Gynlluniau Gofal a Thriniaeth yn cael eu hadolygu a'u diweddarau'n rheolaidd.

Roedd yn gadarnhaol gweld bod y cofnodion clinigol yn dangos yn glir fod y cleifion a'u teuluoedd yn rhan o'r trafodaethau gofal a oedd yn canolbwyntio ar y claf.

Roedd tystiolaeth bod y staff yn adolygu'r cynlluniau gofal yn rheolaidd ac yn eu diweddarau i adlewyrchu'r anghenion a'r risgiau cyfredol. Mae gwaith monitro iechyd corfforol yn cael ei gofnodi'n gyson yng nghofnodion y cleifion. Roedd y cynlluniau rheoli risg yn dda ac yn cynnwys asesiadau risg manwl a chynlluniau strategol ar gyfer rheoli risgiau. Yn ogystal, roedd tystiolaeth o gynllunio gweithredol ac o gynllunio ar gyfer rhyddhau cleifion o leoliadau tymor hir.

Roedd y cofnodion a welsom yn cynnwys tystiolaeth fanwl o waith cynllunio priodol mewn perthynas â rhyddhau ac ôl-ofal, gyda chyfranogiad da gan y tîm amlddisgyblaethol, cydgysylltwyr gofal a gwasanaethau partner perthnasol yn y gymuned leol.

Effeithlon

Effeithlon

Roedd y ward yn cynnal cyfarfodydd dyddiol a oedd yn cynnig cyfle digonol i gadarnhau'r lefelau defnydd gwelyau, y trefniadau arsylwi, y lefelau staffio ac unrhyw faterion a oedd yn dod i'r amlwg neu a oedd wedi newid mewn perthynas â chleifion.

Yn gyffredinol, gwelsom gyfathrebu da rhwng y staff a oedd yn gweithio ar y wardiau a bod gwybodaeth yn cael ei rhannu yn ystod cyfarfodydd trosglwyddo shift.

Dywedwyd wrthym fod y bwrdd iechyd yn wynebu heriau o hyd o safbwynt argaeledd lleoliadau symud ymlaen, pwysau ar welyau, a rhwystrau o fewn y system gofal aciwt ehangach. Roedd y cofnodion a welsom yn dangos ymdrechion staff y ward a thimau cymunedol i ddod o hyd i leoliadau addas a chwblhau'r broses ryddhau mor gyflym â phosibl ac mewn modd diogel. Roedd unrhyw gleifion a oedd

yn cael eu rhyddhau, eu derbyn neu'u trosglwyddo yn cael eu trafod yn ystod y cyfarfodydd dyddiol.

Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Arweinyddiaeth

Llywodraethu ac arweinyddiaeth

Roedd strwythur sefydliadol clir ar waith, sy'n cynnig llinellau rheoli ac atebolrwydd clir. Roedd y staff yn diffinio'r trefniadau hyn yn ystod y dydd, ac roedd systemau ar gyfer uwch-reolwyr a gwasanaeth ar alw ar waith dros nos a'r tu allan i oriau.

Rheolwyr y wardiau oedd yn gyfrifol am reoli'r wardiau o ddydd i ddydd. Roedd rheolwyr y wardiau yn cael eu cefnogi gan uwch-nyrsys. Mewn cyfweiliadau â staff, dywedwyd wrthym fod rheolwyr y wardiau yn arweinwyr gofalgarn a chefnogol.

Gwelsom ddiwylliant staff cadarnhaol gyda chydberthnasau da rhwng y staff a oedd yn cydweithio'n dda fel tîm. Roedd y rhan fwyaf o'r staff yn sôn yn gadarnhaol am yr arweinyddiaeth yn yr ysbyty a chan uwch-reolwyr yng nghyfarwyddiaeth iechyd meddwl y bwrdd iechyd. Fodd bynnag, cymysg oedd yr ymateb a gafwyd gan y staff ynghylch pa mor weladwy oedd yr uwch-dîm rheoli y tu hwnt i'r wardiau. Er bod rhai yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi'n dda, dywedodd eraill eu bod yn dymuno cael y cyfle i ymgysylltu'n fwy rheolaidd â'r uwch-reolwyr a'u gweld ar y wardiau yn fwy rheolaidd.

Dywedodd rhai aelodau o'r staff fod yr Uwch-swyddog Preswyl wedi cael ei adleoli i ardal arall o fewn y bwrdd iechyd. Mae'r Uwch-swyddog Preswyl yn chwarae rôl hollbwysig wrth ddarparu gofal amserol, diogel ac effeithiol, yn arbennig mewn amgylcheddau risg uchel fel mewn ystafelloedd Adran 136. Mynegodd sawl aelod o'r staff eu bod yn gweld eisiau presenoldeb yr Uwch-swyddog Preswyl yn ystod shifftiau nos, yn arbennig o ystyried lleoliad yr ystafell Adran 136 yn yr ysbyty hwn.

Argymhellir y dylai'r bwrdd iechyd ystyried a yw absenoldeb Uwch-swyddog Preswyl ar y safle wedi arwain at unrhyw oedi wrth gynnal asesiadau corfforol neu feddygol, anghenion cleifion nad ydynt wedi cael eu diwallu, neu effeithiau clinigol eraill.

Y Gweithlu

Gweithlu medrus a galluog

Siaradodd y staff y gwnaethom gyfweld â nhw yn llawn angerdd am eu rolau, a thrwy gydol yr arolygiad gwelsom dîm cryf a chydlynol a oedd yn cydweithio.

Ar y cyfan, roedd y staff yn gallu cael gafael ar y rhan fwyaf o'r ddogfennaeth y gofynnwyd amdani a'i darparu'n brydlon. Fodd bynnag, roedd oedi amlwg wrth gael data cydymffurfiaeth staff y wardiau â hyfforddiant gorfodol.

Dengys y ffigurau hyfforddiant a rannwyd yn ystod yr arolygiad fod y gyfradd gydymffurfiaeth yn rhesymol ar y cyfan, ond bod diffygion sylweddol ar Ward Adferiad. Er enghraifft, 37.21% yn unig oedd cyfradd cydymffurfiaeth y staff â hyfforddiant codi a chario gorfodol, y gyfradd gydymffurfio â hyfforddiant llywodraethu gwybodaeth oedd 58%, a 67.44% ar gyfer hyfforddiant diogelu a oedd islaw'r safonau disgwyliadau. Mae cynnal cofnodion hyfforddiant cywir a chyfredol yn hanfodol i sicrhau bod y staff yn meddu ar y wybodaeth i ddarparu gofal diogel ac effeithiol ac i sicrhau atebolrwydd a gwelliant parhaus.

Dylai'r bwrdd iechyd roi system fwy effeithlon ar waith er mwyn cofnodi a chael gafael ar ddata cydymffurfio â hyfforddiant a sicrhau bod hyn yn rhan o'r arfer i lywodraethu a goruchwyllo.

Darparwyd amrywiaeth o bolisiau i ni, gyda'r mwyafrif ohonynt wedi cael eu diweddarw; fodd bynnag, roedd angen adolygu'r polisiau canlynol:

- Defnyddio Ymyriadau Cyfyngol - dyddiad adolygu - mis Medi 2019
- Uwchgyfeirio at Driniaeth Cymru Gyfan - dyddiad adolygu - mis Mawrth 2024
- Tawelyddu Cyflym - dyddiad adolygu - mis Tachwedd 2023.

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau y caiff polisiau eu hadolygu'n amserol i sicrhau eu bod yn gyfredol.

Roedd systemau priodol ar waith i sicrhau bod y broses recriwtio yn un agored a theg. Cyn cyflogaeth, caiff geirdaon staff eu ceisio, cynhelir gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd a chaiff cymwysterau proffesiynol eu cadarnhau.

Roedd staff newydd yn dilyn cyfnod sefydlu o dan oruchwyliaeth staff profiadol ar y ward. Dangosodd y staff dystiolaeth o hyn i ni hefyd a gwnaethant ddisgrifio'r broses sefydlu i ni.

Gwelsom dystiolaeth bod arfarniadau staff blynyddol wedi cael eu cynnal ynghyd â sesiynau goruchwyllo ac esboniodd y staff wrthym eu bod yn cael eu goruchwyllo'n rheolaidd.

Diwylliant

Ymgysylltu â phobl, adborth a dysgu

Roedd trefniadau ar waith i rannu gwybodaeth a gwersi a ddysgwyd o gwynion a digwyddiadau yn gyflym â'r staff yn yr ysbyty ac yn y sefydliad yn fwy cyffredinol. Mae hyn yn helpu i hybu diogelwch cleifion, ac i wella'r gwasanaeth a ddarperir yn barhaus.

Gwelsom fod gwybodaeth ar gael am y Ddyletswydd Gonestrwydd, ond nid oedd rhai aelodau o'r staff yn siŵr a oeddent wedi cael hyfforddiant. Er gwaethaf hyn, dangosodd y staff eu bod yn deall proses y Ddyletswydd Gonestrwydd yn ystod cyfweiliadau a thrafodaethau.

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod y staff yn ymwybodol o ofynion y Ddyletswydd Gonestrwydd ac y caiff pob aelod o staff hyfforddiant priodol.

Dywedodd y staff wrthym y byddent yn teimlo'n ddiogel yn codi pryderon am ofal cleifion neu faterion eraill yn yr ysbyty a'u bod yn teimlo'n hyderus y byddai'r bwrdd iechyd yn mynd i'r afael â'u pryderon. Roedd polisi chwythu'r chwiban ar waith i helpu wrth godi pryderon o'r fath.

Gwybodaeth

Llywodraethu gwybodaeth a thechnoleg ddigidol

Gwnaethom ystyried y trefniadau ar gyfer cynnal cyfrinachedd cleifion a chydymffurfio â gofynion Llywodraethu Gwybodaeth a Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data 2018 ar y wardiau.

Dywedwyd wrthym fod gan bob aelod o'r staff fanylion mewngofnodi personol gyda chyfleuster diogelwch cyfrinair i gael mynediad i'r fewnrwyd. Mae hyn yn helpu i sicrhau mynediad di-oed i bolisiau a gweithdrefnau ac i gael mynediad i system Datix i roi gwybod am ddigwyddiadau. Hefyd, dywedodd y staff eu bod yn deall eu rolau a'u cyfrifoldebau mewn perthynas â chadw cofnodion cywir a chynnal cyfrinachedd.

85% oedd cyfradd cydymffurfiaeth y staff â hyfforddiant llywodraethu ar Ward Pillmawr, gyda chyfradd Ward Adferiad yn is, sef 58%, sy'n dangos bod angen ei gwella. Roedd y staff yn gallu disgrifio eu rôl a'u cyfrifoldebau mewn perthynas â rheoli gwybodaeth bersonol a sensitif.

Dysgu, gwella ac ymchwil

Gweithgareddau gwella ansawdd

Mae'r Therapydd Galwedigaethol ar Ward Pillmawr wedi cyflwyno Model Galluedd Creadigol Vona du Toit, sef model seiliedig ar ymarfer a ddefnyddir yn bennaf ym maes therapi galwedigaethol, yn enwedig ym maes gofal iechyd meddwl a

lleoliadau anableddau dysgu. Dywedodd y Therapydd Galwedigaethol fod hyn wedi bod yn llwyddiannus iawn wrth ymgysylltu â'r cleifion, ond nid oedd y Therapydd yn gallu cyflawni'r model llawn oherwydd diffyg adnoddau.

Dylai'r bwrdd iechyd barhau i ddilyn y model a darparu adnoddau ar gyfer y cleifion er mwyn iddynt barhau i elwa ar y therapi.

Cafodd Ward Pillmawr ei chydabod yn ddiweddar gan dderbyn gwobr “Mynd Gam Ymhellach mewn Nyrsio” ac enillodd y tîm gwobr “Tîm y Flwyddyn” yn y categori cymorth gofal iechyd, yn dilyn ymdrechion fel trefnu sêl cist car elusennol a defnyddio'r arian a godwyd i fynd â'r cleifion ar deithiau, fel ciniawau Nadolig. Mae'r cleifion ar y ward hefyd yn cymryd rhan mewn cynllun gwirfoddol mynd â chŵn am dro, yn ogystal â gweithgareddau cymunedol sy'n cynnwys pêl-droed cerdded a grwpiau rygbi. Mae'r mentrau hyn yn cefnogi llesiant y cleifion ac yn helpu i'w hannog i ailintgreiddio i'r gymuned cyn iddynt gael eu rhyddhau o'r ysbyty.

Dull systemau cyfan

Gweithio mewn partneriaeth a datblygu

Disgrifiodd y staff fod y gwasanaeth yn ymgysylltu ag eraill i gefnogi gwaith partneriaeth er budd gofal cleifion, ac i sefydlu datblygiadau a'u rhoi ar waith. Roedd yn gadarnhaol clywed am yr ymgysylltiad parhaus ag asiantaethau partner allanol, fel awdurdodau lleol, Meddygon Teulu, adrannau tai a gwasanaethau iechyd cymunedol er mwyn sicrhau dull systemau cyfan o ddarparu gofal cleifion. At hynny, dywedwyd wrthym fod yr uwch staff yn mynychu cyfarfodydd rheolaidd ar y cyd ag asiantaethau i drafod unrhyw faterion.

Siaradodd rheolwr ward Pillmawr yn gadarnhaol am y broses gydweithio â Growing Space, sef elusen iechyd meddwl sy'n gweithio'n agos gyda'r staff a'r cleifion i'w cefnogi i gymryd rhan mewn gweithgareddau creadigol a meithrin sgiliau y grŵp cleifion. At hynny, mae staff Cyngor ar Bopeth yn mynd i'r ward bob dydd llun i helpu'r cleifion i gynllunio ar gyfer cael eu rhyddhau o'r ysbyty.

4. Y camau nesaf

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae'n ofynnol i'r gwasanaeth gymryd camau yn eu cylch, nodir y rhain yn y ffyrdd canlynol yn atodiadau'r adroddiad hwn (lle y bônt yn gymwys):

- Atodiad A: Yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon am ddiogelwch cleifion a gafodd eu huwchgysfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith yn dweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd
- Atodiad C: Yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Dylai'r cynlluniau gwella wneud y canlynol:

- Nodi'n glir sut yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd yn ddigonol
- Sicrhau bod y dystiolaeth ofynnol yn erbyn y camau a nodwyd yn cael ei rhoi i AGIC o fewn tri mis i'r arolygiad.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r canfyddiadau yn systemig ar draws rhannau eraill o'r sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan fyddant wedi cael eu cwblhau.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar [wefan](#) AGIC.

Atodiad A - Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a gafodd eu nodi a'u huwchgyfeirio yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith, yn ystod yr arolygiad.

Pryderon uniongyrchol a nodwyd	Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion	Sut gwnaeth AGIC uwchgyfeirio'r pryder	Sut cafodd y pryder ei ddatrys
Gwelsom fagiau o wastraff clinigol a dillad gwely yn y coridorau y tu allan i'r wardiau.	Roedd hyn yn peri risg bosibl o haint i'r cleifion, y staff a'r ymwelwyr a oedd yn defnyddio'r ardaloedd hyn.	Tynnwyd sylw'r uwch reolwr nos at y mater hwn.	Symudodd y staff y gwastraff a'r dillad gwely, a chawsom sicrwydd y byddai gweithdrefnau priodol ar gyfer storio a gwaredu deunyddiau o'r fath yn cael eu dilyn yn y dyfodol.

Atodiad B- Cynllun gwella ar unwaith

Gwasanaeth: Wardiau Adferiad a Pillmawr

Dyddiad yr arolygiad: 19 - 21 Mai 2025

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith yn dweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd.

Risg/canfyddiad/mater	Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/ Rheoliad	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
1. Ni nodwyd unrhyw faterion yr oedd angen sicrwydd ar unwaith yn eu cylch yn ystod yr arolygiad hwn.					

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth:

Enw (priflythrennau):

Teitl swydd:

Dyddiad:

Atodiad C - Cynllun gwella

Gwasanaeth: Wardiau Adferiad a Pillmawr

Dyddiad yr arolygiad: 19 - 21 Mai 2025

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Risg/canfyddiad/mater		Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/ Rheoliad	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
1.	Roedd yr ardd yn Ward Adferiad yn ymddangos yn anniben.	Dylai'r bwrdd iechyd sicrhau bod ardal allanol a gaiff ei chynnal a'i chadw'n effeithiol ar gael i'r cleifion ar Ward Adferiad i gefnogi eu llesiant a'u hadferiad	Rheoli risg a hybu iechyd a diogelwch.	Cafodd gwair yr ardd yn Adferiad ei dorri gan y Cyngor ar 20/06/25. Mae Gweithgor wrthi'n cael ei sefydlu i ystyried defnyddio'r ddwy ardd ochr (Pillmawr ac Adferiad) ar gyfer gweithgareddau therapiwtig, gan	Rheolwr y Ward Seicolegydd Clinigol	Ei gwblhau yn unol ag amserlen barhaus - i'w fonitro Cynhelir cyfarfod â Growing Space ar 18/07/25 i ystyried yr ardaloedd. Bydd y Gweithgor yn cyfarfod â

				gynnwys Growing Space. Mae cynnig cyfalaf wrthi'n cael ei ddatblygu i wneud cais am arian drwy gyllid y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol (Llywodraeth Cymru) i ailddatblygu'r brif ardd ar Ward Adferiad	Rheolwr Gwella Gwasanaethau	Llywodraeth Cymru ar 21/07/25 yn dilyn y cyfarfod â Growing Space Cytuno ar y fanyleb ar gyfer y brif ardd erbyn 18/07/25
2.	Ychydig iawn o weithgareddau strwythuredig oedd ar gael ar Ward Adferiad, ac roedd yn ymddangos bod hyn o	Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod y swydd wag ar gyfer Therapydd Galwedigaethol yn cael ei llenwi i wneud yn siŵr bod gweithgareddau	Y Gweithlu	Dechreuodd Therapydd Galwedigaethol Arweiniol Band 7 yn ei swydd ar 30/06/2025	Arweinydd Therapi Galwedigaethol Proffesiynol	Wedi'i gwblhau

	ganlyniad i swydd wag y Therapydd Galwedigaethol.	therapiwtig a hamdden ar gael i'r cleifion ar Ward Adferiad yn rheolaidd.		Mae Therapydd Galwedigaethol Band 5 sy'n cylchdroi wedi'i benodi ar Ward Adferiad Mae Ward Adferiad ar hyn o bryd yn llunio rhestr fer ar gyfer swydd Gweithiwr Cymorth Therapi Galwedigaethol Technegol Band 3		Yn dechrau ym mis Hydref 2025 Cynhelir y cyfweiliadau ddiwedd mis Gorffennaf
3.	Roedd yn amlwg nad oedd deunyddiau hybu iechyd ar gael ar y ward.	Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod deunyddiau hybu iechyd perthnasol ar gael i'r cleifion.	Gwybodaeth i gleifion	Mae amrywiaeth o ddeunyddiau hybu iechyd i'w gweld ar Ward Pillmawr Rydym wedi archebu hysbysfwrdd er mwyn i Ward Adferiad arddangos y wybodaeth berthnasol. Bydd cyfarfod Rheolwyr y Wardiau yn cynnwys	Rheolwr y Ward Rheolwr y Ward Rheolwr y Ward	Wedi'i gwblhau Archebwyd 04/07/25 Cynhelir y cyfarfod ar 05/08/25

				trafodaeth am roi dull cyson ar waith i arddangos gwybodaeth		
4.	Roedd Ward Adferiad yn cynnwys cymysgedd o ystafelloedd gwely unigol ac ystafelloedd cysgu a rennir, ond nid oedd cyfleusterau en-suite yn yr ystafelloedd	Dylai'r bwrdd iechyd ystyried sut y gall wella profiad y cleifion a chynnal eu preifatrwydd a'u hurddas, i'r rhai y mae'n rhaid iddynt rannu ystafell wely.	Gofal ag urddas	Byddwn yn adolygu'r opsiwn o gael ystafelloedd gwely unigol ar y cyd â'r Tîm Rheoli Is-adrannol yn ystod y Cyfarfod Sicrwydd ar 11/07/25.	Tîm Rheoli'r Gyfarwyddiaeth	I'w drafod ar 11/07/25.
5.	Roedd dodrefn wedi'u difrodi yn yr ardal fwyta ar Ward Adferiad.	Rhaid i'r bwrdd iechyd fynd i'r afael â'r mater amgylcheddol hwn a'i ddatrys mewn modd prydlon ac amserol.	Rheoli risg a hybu iechyd a diogelwch.	Rydym bellach wedi symud y cadeiriau a oedd wedi'u difrodi, ac mae dodrefn newydd wedi'u harchebu Mae'r dodrefn newydd wedi dechrau cyrraedd	Rheolwr y Ward	Disgwylir i'r holl eitemau gyrraedd erbyn diwedd mis Gorffennaf.
6.	Nid oes golau naturiol yn yr Ardal Gofal Ychwanegol ac mae'r system rheoli tymheredd yn wael	Rhaid i'r bwrdd iechyd fynd i'r afael â'r mater amgylcheddol hwn a'i ddatrys mewn modd prydlon ac amserol.	Rheoli risg a hybu iechyd a diogelwch.	Mae cynnig cyfalaf wrthi'n cael ei baratoi i ddefnyddio cyllid cyfalaf y Bwrdd Partneriaeth	Dirprwy Reolwr y Gyfarwyddiaeth	Cyflwyno'r Cynnig Cyfalaf erbyn diwedd mis Gorffennaf - ar ôl cael y

				Rhanbarthol i ailddatblygu'r Ardal Gofal Ychwanegol, sy'n cynnwys cynlluniau ar gyfer gosod drws cefn a chreu ardal awyr agored.		costau gan yr Adran Ystadau
7.	Mae'r cypyrddau wedi torri yn y gegin ar Ward Adferiad	Rhaid i'r bwrdd iechyd fynd i'r afael â'r mater amgylcheddol hwn a'i ddatrys mewn modd prydlon ac amserol.	Rheoli risg a hybu iechyd a diogelwch.	Mae arian cyfalaf wedi cael ei ryddhau i adnewyddu'r ddwy gegin - 12 wythnos i gwblhau'r gwaith o'r adeg archebu	Adran Gwaith ac Ystadau	Rhagwelir y bydd y gwaith yn dechrau ym mis Tachwedd 2025 (gan fod angen aros 12 wythnos o'r adeg archebu)
8.	Roedd y dŵr a oedd yn casglu ar y llawr yn yr ystafell gawod yn Ward Adferiad yn peri risg o lithro	Rhaid i'r bwrdd iechyd fynd i'r afael â'r mater amgylcheddol hwn a'i ddatrys mewn modd prydlon ac amserol.	Rheoli risg a hybu iechyd a diogelwch.	Atgyfeirio'r materion parhaus yn ymwneud â'r draeniau at y tîm Ystadau er mwyn iddo ymchwilio iddynt ymhellach (anfonwyd e-bost i'r adran Ystadau ar 07/07/25). Bydd y llawr yn cael ei ail-selio -	Adran Gwaith ac Ystadau	Yn aros am gadarnhad gan yr adran Ystadau Cafwyd ymateb gan Ddirprwy Reolwr y Gyfarwyddiaeth dros e-bost ar 07/07/25

				atgyfeiriwyd y mater at y tîm Ystadau ar 26/06/25 Bydd yr adran Cyfleusterau yn glanhau'r ardal â stêm unwaith y bydd y llawr wedi'i gwblhau Caiff asesiad sicrwydd pellach ei gwblhau gan yr adran Iechyd a Diogelwch ac Atal a Rheoli Heintiau		
9.	Roedd y sinc wedi blocio yn ardal yr ystafelloedd gwely ar Ward Adferiad	Rhaid i'r bwrdd iechyd fynd i'r afael â'r mater amgylcheddol hwn a'i ddatrys mewn modd prydlon ac amserol.	Rheoli risg a hybu iechyd a diogelwch.	Mae hyn bellach wedi cael ei ddatrys	Adran Gwaith ac Ystadau	Wedi'i gwblhau
10.	Roedd twll yn un o'r waliau yn nhoiledau'r dynion, roedd y bordiau wal yn rhydd ac roedd llwydni amlwg yno	Rhaid i'r bwrdd iechyd fynd i'r afael â'r mater amgylcheddol hwn a'i ddatrys mewn modd prydlon ac amserol.	Rheoli risg a hybu iechyd a diogelwch.	Rydym wedi rhoi gwybod i'r adran ystadau: cyfeirnod 200283	Adran Gwaith ac Ystadau	Cawsom e-bost uwchgyfeirio gan Ddirprwy Reolwr y Gyfarwyddiaeth ar 07/07/25

				Caiff asesiad sicrwydd pellach ei gwblhau gan yr adran Iechyd a Diogelwch ac Atal a Rheoli Heintiau		
11.	Roedd staeniau brown yn y powlenni yn nhoiledau'r menywod ar Ward Adferiad.	Rhaid i'r bwrdd iechyd fynd i'r afael â'r mater amgylcheddol hwn a'i ddatrys mewn modd prydlon ac amserol.	Rheoli risg a hybu iechyd a diogelwch.	Uwchgyfeiriwyd y mater at Reolwr yr Adran Cyfleusterau a ddaeth i Ward Adferiad ar 03/07/25 - rhoddwyd tabledi glanhau Actichlor yn y toiledau.	Rheolwr Cyfleusterau	Wedi'i gwblhau - gofynnodd y Rheolwr Cyfleusterau i'r mater hwn gael ei fonitro'n rheolaidd.
12.	Roedd gorchudd golau wedi'i ddifrodi yn yr ystafell fwyta ar Ward Adferiad.	Rhaid i'r bwrdd iechyd fynd i'r afael â'r mater amgylcheddol hwn a'i ddatrys mewn modd prydlon ac amserol.	Rheoli risg a hybu iechyd a diogelwch.	Uwchgyfeiriwyd y mater at y Rheolwr Ystadau.	Adran Gwaith ac Ystadau	Cawsom e-bost uwchgyfeirio gan Ddirprwy Reolwr y Gyfarwyddiaeth ar 07/07/25
13.	Roedd y sinc wedi blocio yn ystafell 13 ar Ward Pillmawr.	Rhaid i'r bwrdd iechyd fynd i'r afael â'r mater amgylcheddol hwn a'i ddatrys mewn modd prydlon ac amserol.	Rheoli risg a hybu iechyd a diogelwch.	Mae hyn bellach wedi cael ei ddatrys	Adran Gwaith ac Ystadau	Wedi'i gwblhau
14.	Roedd llwydni yn ardal y cawodydd ar Ward Pillmawr.	Rhaid i'r bwrdd iechyd fynd i'r afael â'r mater	Rheoli risg a hybu iechyd a diogelwch.	Rydym wedi uwchgyfeirio'r mater	Adran Gwaith ac Ystadau	Cawsom e-bost uwchgyfeirio

		amgylcheddol hwn a'i ddatrys mewn modd prydlon ac amserol.		hwn at yr adran Gwaith ac Ystadau. Cyfeirnod: 202484		gan Ddirprwy Reolwr y Gyfarwyddiaeth ar 07/07/25
				Caiff asesiad sicrwydd pellach ei gwblhau gan yr adran Iechyd a Diogelwch ac Atal a Rheoli Heintiau	Iechyd a Diogelwch Atal a Rheoli Heintiau	Diwedd mis Gorffennaf 2025
15.	Nid oedd un o'r cawodydd ar Ward Pillmawr yn gweithio.	Rhaid i'r bwrdd Iechyd fynd i'r afael â'r mater amgylcheddol hwn a'i ddatrys mewn modd prydlon ac amserol.	Rheoli risg a hybu Iechyd a diogelwch.	Mae'r holl eitemau bellach wedi cael eu symud, ac rydym yn rhedeg y dŵr yn rheolaidd. Cafodd yr ardal ei glanhau'n drylwyr gan yr adran Cyfleusterau ar 03/07/25 Caiff asesiad sicrwydd pellach ei gwblhau gan yr adran Iechyd a Diogelwch ac Atal a Rheoli Heintiau	Rheolwr y Ward Cyfleusterau Iechyd a Diogelwch Atal a Rheoli Heintiau	Wedi'i gwblhau Wedi'i gwblhau Diwedd mis Gorffennaf 2025

16.	Mae angen glanhau'r gwyntyll sydd yn yr ystafell gawod ar Ward Pillmawr.	Rhaid i'r bwrdd iechyd fynd i'r afael â'r mater amgylcheddol hwn a'i ddatrys mewn modd prydlon ac amserol.	Rheoli risg a hybu iechyd a diogelwch.	Ymdriniwyd â'r mater hwn a bydd yn cael ei fonitro	Rheolwr y Ward	Wedi'i gwblhau
17.	Nifer cyfyngedig o ardaloedd storio oedd ar gael ar y wardiau. Roedd yr ystafell Therapi Galwedigaethol ar Ward Adferiad yn cael ei defnyddio i storio cyfarpar a chyflenwadau. Roedd yr ystafell ymweld ar Ward Pillmawr yn cael ei defnyddio i storio eitemau amrywiol.	Dylai'r bwrdd iechyd gynnal adolygiad o'r anghenion storio presennol a nodi datrysiadau storio amgen a dynodedig er mwyn sicrhau y gellid defnyddio'r ardaloedd therapiwtig a chymunedol.	Rheoli risg a hybu iechyd a diogelwch.	Adferiad - Mae ystafell ddynodedig bellach ar gael fel storfa ar y ward Pillmawr - Mae ystafell wedi'i nodi fel storfa (Hen Fflat y Meddygon).	Rheolwr y Ward Rheolwr y Ward	I'w gwblhau erbyn 10/07/25; rhaid clirio'r ystafell er mwyn sicrhau ei bod yn barod i'w defnyddio. I'w gwblhau erbyn 09/07/25

18.	Yn ystod yr arolygiad, gwelsom y canlynol: - Gerddi a choridoriau nad oeddent yn cael eu cynnal a'u cadw'n effeithiol yn yr ysbyty, gyda sbwriel, bonion sigarêts, malurion a gweoedd pryfed cop amlwg. - Arwyddion budr ger mynedfa'r ysbyty, a all roi argraff gyntaf negyddol i bobl.	Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau ei fod yn rhoi amserlen lanhau a chynnal a chadw reolaidd ar waith ar gyfer yr ardaloedd cyhoeddus, gan gynnwys ar gyfer yr arwyddion a'r gerddi allanol.	Atal a Rheoli Heintiau a Dihalogi	Rydym wedi anfon e-bost i adran Gwaith ac Ystadau'r Bwrdd Iechyd, er mwyn mynd i'r afael ag arwyddion yr ysbyty a'r malurion Mae biniau sigarêts wedi cael eu harchebu - rydym yn aros i fân waith gael ei gwblhau	Adran Gwaith ac Ystadau	Rydym yn aros am ymateb gan yr adran gwaith ac ystadau.
-----	--	--	-----------------------------------	--	-------------------------	---

19.	Nid oedd y staff wedi cwblhau'r hyfforddiant gorfodol ar silindrau ocsigen CD.	Dylai'r bwrdd iechyd sicrhau bod pob aelod perthnasol o'r staff yn gallu cwblhau'r hyfforddiant ar silindrau ocsigen CD.	Y Gweithlu	Mae'r wybodaeth berthnasol wedi cael ei rhannu'n eang er mwyn cefnogi'r hyfforddiant. Mae posteri i'w gweld ar hyn o bryd yn Wardiau Adferiad a Pillmawr Tîm Rheoli'r Gyfarwyddiaeth i fonitro cydymffurfiaeth yn ystod cyfarfodydd Ansawdd a Diogelwch Cleifion a chyfarfodydd Sicrwydd y Gyfarwyddiaeth	Rheolwyr y Wardiau Uwch-nyrsys Tîm Rheoli'r Gyfarwyddiaeth	Wedi'i gwblhau Caiff cydymffurfiaeth ei monitro gan y gyfarwyddiaeth Cynhelir cyfarfodydd Ansawdd a Diogelwch Cleifion yn barhaus a chânt eu monitro bob mis
20.	Roedd yr ystafelloedd clinigol ar y ddwy ward yn anghyfforddus o gynnes.	Rhaid i'r bwrdd iechyd ymchwilio'n drwyadl i'r tymereddau uchel cyson yn yr ardaloedd clinigol a rhoi mesurau effeithiol ar	Rheoli Meddyginiaethau	Rydym wedi gofyn am gostau gosod system tymheru aer yn yr Ystafelloedd Clinigol ar wardiau Pillmawr ac Adferiad, yn dilyn	Adran Gwaith ac Ystadau	Gofynnwyd am y costau ar 02/07/25 Cyfeirnod: 203518

		waith i fynd i'r afael â'r broblem.		ymgyngoriad â'r Rheolwr Ystadau yn ystod cyfarfod yr adran Ystadau Is-adrannol a gynhaliwyd ar 26/06/25. Ychwanegwyd y mater at y Gofrestr Risgiau ac at gofrestr blaenoriaethau cyfalaf		Anfonwyd e-bost i'r adran Gwaith ac Ystadau ar 07/07/25 i ofyn am y wybodaeth hon ar fyrder
21.	Nid oedd y ffurflenni CO2 a CO3 wedi'u hatodi i'r siartiau Cofnodion Rhoi Meddyginiaeth.	Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod yr holl ddogfennaeth sy'n ofynnol yn gyfreithiol, gan gynnwys y ffurflenni CO2 a CO3, yn cael eu cwblhau'n gyson a'u hatodi i'r siartiau Cofnodion Rhoi Meddyginiaeth.	Cofnodion Cleifion	Mae'r weithred yn berthnasol ar gyfer Ward Adferiad - ychwanegodd y Nyrs Ddynodedig â Chyfrifoldeb y mater at y rhestrau gwirio wythnosol.	Rheolwr y Ward	Wedi'i gwblhau - gwaith monitro parhaus
22.	Nid yw'r staff banc sy'n gweithio ar y wardiau yn cael unrhyw hyfforddiant	Rhaid i'r bwrdd iechyd gysylltu ag adran staff dros dro y bwrdd iechyd i gael sicrwydd bod unrhyw	Y Gweithlu	Mae o leiaf pedwar aelod o staff sydd wedi cwblhau hyfforddiant ar Atal a	Rheolwr y Ward	Wedi'i gwblhau

ar ymyriadau corfforol ar hyn o bryd.	staff banc sy'n gweithio mewn meysydd lle gall fod angen iddynt ddarparu ymyriadau corfforol (dulliau atal) wedi cael yr hyfforddiant gofynnol, er mwyn cynnal diogelwch y staff a'r cleifion.		Rheoli Trais ac Ymddygiad Ymosodol yn gweithio ar bob shift. Mae pob aelod o staff parhaol yn cwblhau'r hyfforddiant ar Atal a Rheoli Trais ac Ymddygiad Ymosodol fel rhan o'r broses sefydlu. Mae'r hyfforddiant ar Atal a Rheoli Trais ac Ymddygiad Ymosodol bob amser wedi'i nodi fel hyfforddiant gorfodol wrth i ni ofyn am staff Banc a staff Asiantaeth. Cynnal trafodaeth yn ystod cyfarfod Ansawdd a Diogelwch Cleifion yr Is-adran er mwyn ystyried uwchgyfeirio'r mater	Rheolwr y Ward Dirprwy Nyrs Is-adrannol	Wedi'i gwblhau I'w drafod yn ystod cyfarfod Ansawdd a Diogelwch Cleifion yr Is-adran ar 09/07/25
--	---	--	---	---	--

				at yr Adran Adnoddau Banc		
23.	Mynegodd y rhan fwyaf o'r cleifion y gwnaethom gyfweld â nhw anfodlonrwydd o ran yr amrywiaeth cyfyngedig a'r diffyg opsiynau ar y fwydlen	Dylai'r bwrdd iechyd adolygu'r fwydlen ac ymgysylltu â'r cleifion i'w thrafod.	Maeth a Hydradu	Cynnal cyfarfod â'r Rheolwr Cyfleusterau i ystyried yr opsiynau i ychwanegu amrywiaeth at y fwydlen Wardiau i gasglu adborth gan y cleifion ar yr opsiynau sydd ar y fwydlen. Mae Ward Pillmawr wedi cyflwyno nosweithiau tecawê, lle mae'r cleifion yn prynu eu bwyd eu hunain.	Adran Cyfleusterau Rheolwr y Ward Rheolwr y Ward	Trefnu cyfarfod ar gyfer WC ar 14/07/25 Casglu adborth erbyn diwedd mis Gorffennaf 2025 Wedi'i gwblhau
24.	Nid oedd gan Ward Adferiad wasanaeth Therapi Galwedigaethol ar hyn o bryd, sy'n cyfyngu ar y cyfleoedd i'r cleifion	Dylai'r bwrdd iechyd archwilio opsiynau i sicrhau y gall y cleifion gymryd rhan mewn sesiynau coginio a gaiff eu harwain gan y	Y Gweithlu	Ward Adferiad - Bydd y Therapyddion Galwedigaethol yn defnyddio cegin y cleifion, unwaith y	Therapydd Galwedigaethol Arweiniol	Tachwedd 2025

	gymryd rhan yn y broses o baratoi prydau bwyd a datblygu sgiliau byw yn annibynnol.	gwasanaeth Therapi Galwedigaethol.		bydd wedi cael ei hadnewyddu ym mis Tachwedd, i hwyluso gweithgareddau coginio ar gyfer y cleifion. Caiff Cynllun Gweithgareddau ei ddatblygu - mae Therapydd Galwedigaethol Arweiniol bellach wrth ei waith. Mae Gweithgor wrthi'n cael ei sefydlu i ystyried defnyddio'r ddwy ardd ochr (Pillmawr ac Adferiad) ar gyfer gweithgareddau therapiwtig, gan gynnwys Growing Space	Therapydd Galwedigaethol Arweiniol	Caiff hyn ei ddatblygu erbyn diwedd mis Gorffennaf 25 Cynhelir cyfarfod â Growing Space ar 18/07/25 i ystyried yr ardaloedd.
--	--	---	--	---	---	--

						Y Gweithgor i gyfarfod â WC ar 21/07/25.
25.	Nodwyd bod yr amgylchedd ar Ward Adferiad yn anghyfforddus o boeth, yn enwedig yn y gegin, gan fod heulfan blastig yno.	Asesu'r broses rheoli tymheredd yn y gegin.		Yr Adran Ystadau i archwilio'r tymheredd yn y gegin yn unol â'r gwaith adnewyddu a gaiff ei gwblhau yn y gegin - disgwylir i'r gwaith gael ei gwblhau ym mis Tachwedd 25	Adran Gwaith ac Ystadau	
26.	Roedd yn anodd i ni ddefnyddio'r system electronig a ddefnyddir gan y bwrdd iechyd, ac o ganlyniad, codwyd pryderon ynghylch gallu staff dros dro neu staff asiantaeth i gael gafael ar wybodaeth berthnasol a phriodol.	Dylai'r bwrdd iechyd ystyried adolygu'r systemau cofnodi electronig ar draws y safleoedd yn ehangach i sicrhau cysondeb, defnyddioldeb, ac effeithiolrwydd ac adolygu'r ffordd y mae'r system yn effeithio ar allu'r staff i gofnodi a chasglu data yn gywir, gan roi sylw penodol i hygyrchedd a defnyddioldeb y system	Llywodraethu, Arweinyddiaeth ac Atebolrwydd	System Wybodaeth Gofal Cymunedol Cymru - mae Achos o Newid ar waith ar hyn o bryd - mae system arall wedi cael ei nodi ac rydym yn aros iddi gael ei rhoi ar waith yn 2027 Staff dros dro - Rydym yn ystyried ffyrdd dros dro o fewngofnodi	Arweinydd Perfformiad Is-adrannol	Anfonwyd e-bost at yr Arweinydd Perfformiad ar 07/07/25 yn gofyn iddo archwilio'r mater hwn a chodwyd y mater yng nghyfarfod Sicrwydd y Gyfarwyddiaeth ar 10/07/25

		ar gyfer staff dros dro a staff asiantaeth.				
27.	Nid oedd rhai aelodau o'r staff wedi cwblhau'r hyfforddiant ar y Ddeddf Iechyd Meddwl.	Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod y staff yn cwblhau'r hyfforddiant ar y Ddeddf Iechyd Meddwl.	Y Gweithlu	Rydym wedi gofyn i adran y Ddeddf Iechyd Meddwl ddarparu dyddiadau hyfforddiant i ni tri mis ymlaen llaw er mwyn sicrhau eu bod yn cyd-fynd yn well â'r rhestrau gweithio, a bod staff y wardiau yn gallu ei gwblhau.	Adran y Ddeddf Iechyd Meddwl Rheolwr y Gyfarwyddiaeth	Wedi'i gwblhau - caiff y dyddiadau eu hanfon atom tri mis ymlaen llaw Tîm Rheoli'r Gyfarwyddiaeth i fonitro cydymffurfiaeth bob mis
28.	Nodwyd gennym nad oedd un o'r cynlluniau gofal a thriniaeth wedi cael ei ddiweddarau ar Ward Pillmawr.	Dylai'r bwrdd iechyd sicrhau bod yr holl Gynlluniau Gofal a Thriniaeth yn cael eu hadolygu a'u diweddarau'n rheolaidd.	Cofnodion Cleifion	Roedd y cynllun hwn wedi cael ei gadw yn y lle anghywir ar System Wybodaeth Gofal Cymunedol Cymru - rydym wedi atgoffa pob aelod o'r staff o'r weithdrefn gywir. Mae'r ward yn adolygu'r cynlluniau gofal a thriniaeth bob	Rheolwr y Ward	Rheolwr y Ward i gwblhau'r gwaith monitro

				wythnos (bob tri mis ar gyfer pob claf) cyn cynnal Rowndiau Ward		
29.	Mynegodd sawl aelod o'r staff eu bod yn gweld eisiau presenoldeb yr Uwch-swyddog Preswyl yn ystod shifftiau nos, yn arbennig o ystyried lleoliad yr ystafell Adran 136 yn yr ysbyty hwn.	Argymhellir y dylai'r bwrdd iechyd ystyried a yw absenoldeb Uwch-swyddog Preswyl ar y safle wedi arwain at unrhyw oedi wrth gynnal asesiadau corfforol neu feddygol, anghenion cleifion nad ydynt wedi cael eu diwallu, neu effeithiau clinigol eraill.	Llywodraethu, Arweinyddiaeth ac Atebolrwydd	Anfonwyd e-bost at arweinydd pob adran yn Ysbyty Sant Cadog ar 02/07/25 i gasglu ei adborth. Caiff adolygiad ei gwblhau yn dilyn hyn.	Tîm Rheoli'r Gyfarwyddiaeth	Mae cyfarfod wedi'i drefnu ar gyfer yr wythnos sy'n dechrau ar 14 Gorffennaf 2025 gyda'r Arweinydd Meddygol i adolygu'r adborth a thrafod presenoldeb Uwch-swyddogion Preswyl ar y safle yn Ysbyty Sant Cadog.
30.	Roedd oedi amlwg wrth gael data cydymffurfiaeth staff y wardiau â hyfforddiant gorfodol.	Dylai'r bwrdd iechyd roi system fwy effeithlon ar waith er mwyn cofnodi a chael gafael ar ddata cydymffurfio â	Llywodraethu, Arweinyddiaeth ac Atebolrwydd	Mae Tîm Rheoli'r Gyfarwyddiaeth yn casglu data canolog ar gydymffurfiaeth y staff â hyfforddiant	Tîm Rheoli'r Gyfarwyddiaeth	Bydd SharePoint yn fyw erbyn diwedd mis Gorffennaf 25

	Mae angen gwella'r lefelau cydymffurfio â hyfforddiant.	hyfforddiant a sicrhau bod hyn yn rhan o'r arfer i lywodraethu a goruchwyllo.		bob mis ar gyfer pob ward. Bydd fersiwn fyw ar gael drwy SharePoint.		
31.	Roedd angen adolygu'r polisiâu canlynol: - Defnyddio Ymyriadau Cyfyngol - dyddiad adolygu - mis Medi 2019 - Uwchgyfeirio at Driniaeth Cymru Gyfan - dyddiad adolygu - mis Mawrth 2024 - Tawelyddu Cyflym - dyddiad adolygu - mis Tachwedd 2023	Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau y caiff polisiâu eu hadolygu'n amserol i sicrhau eu bod yn gyfredol.	Llywodraethu, Arweinyddiaeth ac Atebolrwydd	Mae'r polisiâu'n cael eu hadolygu ar hyn o bryd. Mae'r polisiâu yn berthnasol o hyd ac maent ar waith. Caiff y broses o adolygu'r polisi Ymyriadau Cyfyngol ei harwain gan yr adran Iechyd a Diogelwch corfforaethol.	Nyrs Is-adrannol Cynorthwyol Iechyd a Diogelwch	Medi 2025 Caiff ei fonitro gan y grŵp Polisiâu Is-adrannol. Disgwylir i'r Polisi Ymyriadau Cyfyngol gael ei gadarnhau ym mis Medi 2025
32.	Nid oedd rhai o'r staff yn siŵr a oeddent wedi cael hyfforddiant ar y	Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod y staff yn ymwybodol o ofynion y	Y Gweithlu	Anfonwyd e-bost at arweinydd pob tîm a Rheolwyr y Wardiau ar	Pob Arweinydd Proffesiynol	Wedi'i gwblhau

	Ddyletswydd Gonestrwydd.	Ddyletswydd Gonestrwydd ac y caiff pob aelod o staff hyfforddiant priodol.		03/07/25 i rannu'r ddolen ar gyfer mewnwyd y Ddyletswydd Gonestrwydd, y fideo hyfforddiant a'r daflen wybodaeth Bydd y Cofnodion Staff Electronig ar gyfer hyfforddiant yn fyw erbyn mis Tachwedd 2025.		Tachwedd 2025
33	Nid oedd y Therapydd Galwedigaethol yn gallu cyflawni'r model gofal llawn oherwydd diffyg adnoddau.	Dylai'r bwrdd iechyd barhau i ddilyn y model a darparu adnoddau ar gyfer y cleifion er mwyn iddynt barhau i elwa ar y therapi.	Y Gweithlu	Bydd Pennaeth Is-adrannol gwasanaethau Therapi Galwedigaethol yn mynd i'r afael â'r mater o ddiffyg adnoddau. Disgwylir i'r mater hwn gael ei drafod yng nghyfarfod Sicrwydd y Gyfarwyddiaeth ar 10/07/25. Mae Ward Pillmawr wrthi'n rhoi'r model ar waith ar hyn o bryd gan ddefnyddio'r	Pennaeth yr Is-adran Therapi Galwedigaethol	Cynhelir trafodaeth yn y cyfarfod Sicrwydd ar 10/07/25

				adnoddau a roddwyd iddi gan y Gyfarwyddiaeth/Is- adran.		

Bydd y grwpiau canlynol yn goruchwyllo ac yn monitro'r cynllun gweithredu: -

- Grŵp Ansawdd a Diogelwch Cleifion yr Is-adran Iechyd Meddwl/Anableddau Dysgu
- Cyfarfod Misol Cynllun Gweithredu Iechyd Meddwl Oedolion
- Grŵp Rheoli Ansawdd

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth

Enw (priflythrennau): Amy Buckley

Teitl swydd: Nyrs Is-adrannol Cynorthwyol

Dyddiad: 07/07/2025